

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

**Crynodeb o'r ymatebion i'r
ymgyngoriad a gynhaliwyd ar ran
dau o Gomisiwn Silk ar Ddatganoli
yng Nghymru**
Mehfin 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/0606
Rhif dogfen:13/043

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Papur ymchwil

**Crynodeb o'r ymatebion i'r
ymgyngoriad a gynhaliwyd ar ran
dau o Gomisiwn Silk ar Ddatganoli
yng Nghymru**

Mehefin 2013

Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Comisiwn Silk	2
2.1. Aelodaeth	2
2.2. Cylch Gorchwyl	2
2.3. Galwad am dystiolaeth	3
3. Y dystiolaeth: Pwerau	4
3.1. Pwerau a gedwir yn ôl	4
3.2. Plismona	9
3.3. Cyfiawnder troseddol ac awdurdodaeth ar wahân	13
3.4. Lles.....	18
3.5. Trafnidiaeth	19
3.6. Cydraddoldebau	22
3.7. Swyddogaethau llywodraeth leol.....	23
3.8. Etholiadau.....	24
3.9. Ynni.....	25
3.10. Iechyd a gofal cymdeithasol.....	28
3.11. Materion Defnyddwyr	30
3.12. Darlledu.....	31
3.13. Dŵr.....	32
3.14. Cyflogau ac Amodau Athrawon	33
4. Tystiolaeth: gwella'r setliad mewn ffyrdd ar wahân i drosglwyddo pwerau	34
4.1. Cysylltiadau rhynglywodraethol	34
4.2. Creu hunaniaeth gyfreithiol i Gymru	35
4.3. Darlledu.....	36
5. Tystiolaeth: Materion maint a chapasiti	38
6. Y camau nesaf	41
Atodiad 1: Tystiolaeth ysgrifenedig i Gomisiwn Silk Rhan II	42

Penawdau

- Mae **Llywodraeth Cymru** o blaid symud at fodel o ddatganoli sy'n seiliedig ar “**bwerau a gedwir yn ôl**”, fel y mae **Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**. Nid oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad** na'r dystiolaeth a gafwyd gan y **Ceidwadwyr Cymraeg** yn mynegi barn ar y mater hwn. Mae **Llywodraeth y DU** yn hapus â'r model cyfredol o ddatganoli yng Nghymru.
- Mae **Llywodraeth Cymru** o blaid datganoli **pwerau plismona**. Mae **Llywodraeth y DU** yn erbyn datganoli pwerau plismona.
- Nid yw **Llywodraeth Cymru'n** teimlo y bydd yn bosibl iddi fynd ar drywydd datganoli'r system **cyfiawnder troseddol** yn ei chyfanrwydd ar hyn o bryd, ond dyma yw ei bwriad yn y tymor hir. Cred **Llywodraeth Cymru** hefyd y dylid paratoi ar gyfer cyfnod pan fydd cael **awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru**, o bosibl, yn gam angenrheidiol a buddiol. Mae **Llywodraeth y DU** yn erbyn datganoli'r system cyfiawnder troseddol ac yn erbyn creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.
- Nododd **Llywodraeth y DU** y gallai Deddfau'r Cynulliad greu troseddau. Mae'n rhaid i adrannau o **Llywodraeth y DU** **gael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cyfiawnder cyn creu troseddau newydd o fewn Biliau**. Awgrymodd **Llywodraeth y DU** y byddai'r Comisiwn, o bosibl, am ystyried a ddylai hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Biliau'r Cynulliad ac a ddylid ymdrin â'r mater hwn yn weinyddol (er enghraifft, drwy ddefnyddio protocol neu drwy ddeddfwriaeth).
- Mae **Llywodraeth Cymru** am ehangu cymhwysedd y Cynulliad i gynnwys **terfynau cyflymder, rheoleiddio'r sector bws a'r sector tacsî, a phorthladdoedd**. Gofynnodd **Llywodraeth y DU** i Gomisiwn Silk (“y Comisiwn”) ystyried y ffin ddatganoli mewn perthynas â phorthladdoedd a rheoleiddio gwasanaethau a chwmnïau bws lleol yng Nghymru.
- Gwelodd **Llywodraeth Cymru** bosibiliadau ynghylch newid y setliad datganoli mewn perthynas â **gwasanaethau a seilwaith y rheilffyrdd**. Gofynnodd **Llywodraeth y DU** i'r Comisiwn ystyried y ffin ddatganoli mewn perthynas â rheilffyrdd a'r posibiliadau o ran newid y trefniadau hynny.
- Mae **Llywodraeth Cymru** am weld y **broses o weinyddu etholiadau** yng Nghymru yn cael ei datganoli. Gofynnodd **Llywodraeth y DU** i'r Comisiwn ystyried a ddylid datganoli'r broses o weinyddu etholiadau **Llywodraeth leol** yng Nghymru i Weinidogion Cymru.

- Mae **Llywodraeth Cymru** am i Weinidogion Cymru gael swyddogaethau gweithredol, ac am i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol, mewn perthynas â chaniatadau ar gyfer prosiectau ynni mawr (ac eithrio ynni niwclear) a seilwaith cysylltiedig sy'n ymwneud ag ynni. Cred **Llywodraeth y DU** fod y drefn gyfredol unedig o ganiatáu datblygiadau mewn perthynas â phrosiectau ynni yng Nghymru a Lloegr yn darparu llwyfan sefydlog ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr. Yn ogystal, awgrymodd Llywodraeth y DU y dylai'r Comisiwn ystyried cynnwys datblygiadau cysylltiedig yng Nghymru yn nhrefn y Ddeddf Gynllunio.
- Nid yw **Llywodraeth Cymru** na **Llywodraeth y DU** am weld pwerau darlledu yn cael eu datganoli.
- Mae **Llywodraeth Cymru** am gael cymhwysedd deddfwriaethol dros drwyddedu a rheoleiddio unrhyw gyflenwr **dŵr** trwyddedig sydd wedi'i gynnwys o fewn ystyr *Deddf y Diwydiant Dŵr 1991*; dros benodi a rheoleiddio unrhyw ymgymrwyr dŵr nad yw eu hardal yn llwyr neu'n rhannol yng Nghymru; a thros garthffosiaeth. Mae hefyd am ddileu pŵer uniongyrchol yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd mewn achosion o weithredu swyddogaethau sy'n ymwneud â dŵr. Dywedodd **Llywodraeth y DU** ei bod yn bosibl na fyddai gwahanu systemau trawsffiniol yn dechnegol ymarferol am gost resymol, ac y gallai hyn greu anawsterau sylweddol o ran rheoleiddio.
- Gofynnodd **Llywodraeth y DU** i Gomisiwn Silk ystyried datganoli pwerau dros **gyflogau a thelerau athrawon**. Mae **Llywodraeth Cymru** wedi datgan yn gyhoeddus ei bod yn gwrthwynebu hyn.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar ran dau o Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru

1. Cyflwyniad

Ar 19 Gorffennaf 2011, gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru bryd hynny, sef Y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, ddatganiad am y ffaith y byddai Comisiwn annibynnol yn cael ei sefydlu i edrych ar bwerau ariannol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.¹ Dechreuwyd ar y gwaith hwn, sef "rhan un", yn nhymor yr hydref 2011, a chyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ym mis Tachwedd 2012. Yn ogystal, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol y byddai'r Comisiwn, wedi iddo gyflwyno adroddiad ar bwerau ariannol Cymru ac wedi i Lywodraeth y DU ystyried ei gynigion, yn edrych ar y setliad cyfansoddiadol yng Nghymru, "ar sail profiad". Mae'r Comisiwn yn awr wedi dechrau ei waith ar "rhan dau" o'i gylch gwaith, sef adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chyhoeddodd alwad am dystiolaeth ar 29 Tachwedd 2012. Bydd yn cyhoeddi adroddiad yn nhymor y gwanwyn 2014.

Mae'r Comisiwn yn cael ei gadeirio gan Paul Silk, cyn Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001 i 2007) a chyn Glerc yn Nhŷ'r Cyffredin. Dyna pam y defnyddir y term 'Comisiwn Silk'.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gefndir am sefydlu Comisiwn Silk ym mhapurau'r Gwasanaeth Ymchwil, sef [*Y Llwybr tuag at y Comisiwn*](#) a [*Comisiwn Silk*](#).

Daeth yr ymgynghoriad ar ran dau i ben ar 1 Mawrth 2012, er y cyflwynwyd peth o'r dystiolaeth yn hwyrach. Mae'r papur hwn yn darparu adolygiad a chrynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i Gomisiwn Silk.

¹ [*Swyddfa Cymru, Next Steps for Commission on Devolution in Wales outlined, Datganiad i'r Wasg, 19 Gorffennaf 2011 \[fel ar 19 Mawrth 2013\]*](#)

2. Comisiwn Silk

2.1. Aelodaeth

Ar wahân i'r Cadeirydd, Paul Silk, mae'r Comisiwn yn cynnwys **pedwar aelod a enwebwyd gan y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, a thri aelod annibynnol.**² Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Trefor Jones, diwydiannwr o ogledd Cymru
- Helen Molyneux, Prif Weithredwr NewLaw Solicitors.
- Yr Athro Noel Lloyd CBE (cyn Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth)
- Yr Athro Nick Bourne (enwebai'r Ceidwadwyr Cymreig, cyn arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol)
- Jane Davidson (enwebai Llafur Cymru, cyn Weinidog Cyllid Llywodraeth Cymru)
- Rob Humphreys (enwebai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru)
- Dr Eurfyl ap Gwilym (enwebai Plaid Cymru, economydd)³

2.2. Cylch Gorchwyl

Cylch gorchwyl y Comisiwn ar gyfer rhan dau o'i waith yw:

Adolygu pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail profiad ac argymell diwygiadau i'r setliad cyfansoddiadol presennol a fyddai'n galluogi Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i wasanaethu pobl Cymru'n well.

Wrth ymdrin â Rhan II, dylai'r Comisiwn:

- archwilio pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn benodol:
 - y ffin rhwng yr hyn sydd wedi'i ddatganoli a'r hyn nas datganolwyd;
 - a ddylid diwygio'r ffin ar hyn o bryd; ac unrhyw oblygiadau trawsffiniol i ddiwygiadau o'r fath;
- ymgynghori'n eang ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r ffin bresennol;
- gwneud argymhellion ynghylch unrhyw ddiwygiadau i'r setliad sy'n debygol o gael eu cefnogi'n eang; ac

² Roedd Dyfrig John a Sue Essex yn aelodau o'r Comisiwn yn ystod rhan un. Bu iddynt ymddiswyddo, a gwahodwyd Trefor Jones a Helen Molyneux i mewn fel aelodau annibynnol. Disodlwyd Sue Essex gan Jane Davidson fel enwebai'r Blaid Lafur.

³ [Gwefan Comisiwn Silk \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

- ystyried a gwneud argymhellion ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion deddfwriaethol a'r materion gweithredu ymarferol sydd ynghlwm wrth y diwygiadau hynny.⁴

Ni fydd y Comisiwn yn ystyried strwythur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys materion mewn perthynas ag ethol Aelodau'r Cynulliad.⁵

2.3. *Galwad am dystiolaeth*

Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth ar 29 Tachwedd 2012. Yn yr alwad honno, dywedodd Paul Silk:

Hoffem glywed eich awgrymiadau ar gyfer y meysydd y dylai'r Comisiwn eu hystyried yn benodol, yn ogystal â syniadau penodol ar gyfer sut ddylid diwygio'r setliad datganoli i wasanaethu pobl Cymru yn well.

Os ydych chi'n awgrymu newidiadau i'r setliad datganoli, fel awgrymu pŵer y dylid ei ddatganoli i Gymru neu ei ddychwelyd i San Steffan, byddem yn hoffi cael gwybod pam eich bod yn gwneud yr awgrym hwn, a beth fydd y goblygiadau i Gymru yn eich barn chi, ac i'r Deyrnas Unedig yn fwy cyffredinol.

Hefyd efallai bod gennych chi safbwyntiau ynghylch sut mae'r setliad cyfredol yn gweithio yn ymarferol, a ble gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae'n gweithio, er enghraifft, gwell cydweithredu mewn meysydd penodol a all fod o fudd i bobl Cymru.

Efallai bydd y cwestiynau canlynol yn bwyntiau defnyddiol i'w hystyried wrth baratoi eich cyflwyniad, ond nid oes rhaid cyfyngu eich ymateb iddynt:

- Pa gyfrifoldebau, os o gwbl, ddylid eu trosglwyddo yn eich barn chi rhwng Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (hynny yw, pwerau i'w datganoli neu eu hadfer i San Steffan)? Pam?
- Sut gellid gwella'r dull o weithredu'r setliad datganoli mewn ffyrdd eraill, yn hytrach na throsglwyddo pwerau?
- Pa sylwadau cyffredinol sydd gennych chi am natur y setliad datganoli cyfredol?
- Pa egwyddorion ddylai fod yn sail i unrhyw ddiwygiad i'r setliad?
- Pa enghreifftiau allwch chi eu rhoi o feysydd polisi sydd wedi'u gorlwytho ar hyn o bryd gan raniad presennol y cyfrifoldebau neu weithredu'r setliad datganoli? Gall hyn gynnwys problemau trawsffiniol, diffyg cydlynu polisiau'n effeithiol, neu wrthdaro sy'n codi o'r diffiniad pendant o bwerau datganoledig.⁶

⁴ [Comisiwn Silk, Cylch Gorchwyl \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁵ [Gwefan Comisiwn Silk \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁶ [Comisiwn Silk, yr ail alwad am dystiolaeth, 29 Tachwedd 2013 \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

3. Y dystiolaeth: Pwerau

Ar 13 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Comisiwn yr holl dystiolaeth a ddaeth i law, sef dros 100 o gyflwyniadau. Gellir gweld rhestr lawn yn **Atodiad 1**.

Roedd ugain darn o dystiolaeth yn mynegi gwrthwynebiad llwyr i'r broses ddatganoli. Dywedodd yr awduron nad oeddent am weld cynnydd ym mhwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mewn darnau eraill o dystiolaeth, mynegwyd y farn nad oes achos dros gael rhagor o bwerau ar hyn o bryd. Er enghraifft, dywedodd **yr Athro Malcolm J Prowle**:

It would be a distraction for NAW/WG to take on further devolved responsibilities in the short medium. It would be best to concentrate on improving core public services and return to the issue of further devolution of responsibilities towards the end of this decade provided the situation has improved.

The Assembly is a relatively new body and has yet to gain sufficient maturity to take on extra powers. This maturity might come over a longer period of time.⁷

3.1. *Pwerau a gedwir yn ôl*

Wrth ymateb, dywedodd **Llywodraeth Cymru**:

Dylai fod Deddf Llywodraeth Cymru newydd, a honno'n creu setliad datganoli i Gymru sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn seiliedig ar y model "Pwerau a Gedwir". Byddai hyn yn rhoi mwy o eglurder o ran atebolrwydd, ac yn lleihau'r tebygolrwydd o wrthdaro rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. **Dan fodel o'r fath, dylai'r Cynulliad allu dileu neu addasu pwerau Gweinidogion y DU mewn meysydd cymhwysedd datganoledig** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*]. Dylai fod modd addasu'r model (h.y. y rhestr o faterion a Gedwir yn San Steffan) o bryd i'w gilydd heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol.⁸

Fodd bynnag, nododd hefyd mai "nid ceisio atgynhyrchu setliad datganoli'r Alban ar gyfer Cymru yw ein nod. Yn hytrach, rydym yn gwneud cynigion i ddatblygu datganoli ar sail model Pwerau a Gedwir, sef y model mwyaf addas ar gyfer amgylchiadau penodol Cymru, yn ein barn ni."⁹

⁷ [Tystiolaeth gan yr Athro Michael J Prowle \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

⁸ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁹ Ibid.

Rhybuddiodd Llywodraeth Cymru hefyd y byddai:

unrhyw welliant o ran eglurder yn cael ei danseilio ar unwaith pe byddai'r cynllun newydd yn cynnwys yr un cyfyngiad cyffredinol ar ddileu neu addasu pwerau Gweinidogion y DU, fel y maent ar hyn o bryd (yn rhinwedd y ddarpariaeth yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006). Mae nifer o'r pwerau hyn, sydd wedi'u hadeiladu dros y blynyddoedd, wedi'u gwasgaru ar draws sawl maes o'r gyfraith, gan gynnwys meysydd datganoledig, fel bod gan y cyfyngiad y potensial i barhau i fod yn faen tramgwydd i'r ddeddfwriaeth symlaf gan y Cynulliad ynglŷn â materion nad oes fawr o amheuaeth mai'r ddeddfwrfa ddatganoledig yng Nghymru ddylai fod yn gyfrifol amdanynt.¹⁰

Argymhellodd hefyd:

dan fodel datganoli Pwerau a Gedwir, bydd angen mecanwaith, heb fynd cyn belled â deddfwriaeth sylfaenol, a fyddai'n cynnal rhestr ddiweddar o'r pwerau a gedwir, a thrwy gytundeb yn addasu cydbwysedd cyfrifoldebau'r Senedd a'r Cynulliad wrth i amgylchiadau newid. Mae Deddf yr Alban 1998 yn darparu ar gyfer gweithdrefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor i ymdrin â hyn; byddai Llywodraeth Cymru yn hapus i weld gweithdrefn debyg yn cael ei darparu ar gyfer Cymru.¹¹

Mae **Plaid Cymru** yn cefnogi'r model pwerau a gedwir. Dywed ei thystiolaeth:

Tra gellid diwygio Atodlen 7 DLIC 2006 i drosglwyddo cyfrifoldebau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae angen deddf newydd i sefydlu pa bwerau a gedwir yn ôl. Dylai'r ddeddf hon fod yn flaenoriaeth, gan ymgorffori'r cynigion sydd yn y cyflwyniad hwn.¹²

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cefnogi'r model pwerau a gedwir, ac o blaid setliad yr Alban.¹³ Fodd bynnag, nid oedd y dystiolaeth a gafwyd gan **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad** na'r dystiolaeth a gafwyd gan y **Blaid Geidwadol yng Nghymru** yn cyfeirio at y model pwerau a gedwir.

Dywedodd yr **Arglwydd Morris o Aberafan** (yr Arglwydd Morris), sef cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r cyn Dwrnai Cyffredinol:

I believe the time has now come to seriously consider a similar "reservation" model to Scotland. This would be much better, more effective and have a higher degree of permanence than a bit by bit transfer of further powers year by year.¹⁴

¹⁰ [Ibid.](#)

¹¹ [Ibid.](#)

¹² [Tystiolaeth gan Blaid Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

¹³ [Tystiolaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

¹⁴ [Tystiolaeth gan yr Arglwydd Morris o Aberafan \[fel ar 16 Mai 2016\]](#)

Dywedodd Ysgol y Gyfraith Caerdydd:

While the question of precisely where any new boundaries between the legislatures in Wales and the UK are to be drawn must remain a political one, it is submitted that two key principles should underpin the legal framework which will ultimately define those boundaries. The first is that they should be as clear as possible to avoid doubt and conflict as between Cardiff and Westminster. The second is that they should be based on a coherent test which would enable understanding of why particular matters may, or may not, be allocated to one legislature or the other.¹⁵

Dywed y dystiolaeth hefyd:

the list of areas in Sch 7 which are within the Assembly's legislative competence is subject to numerous exceptions. These themselves may or may not have a readily understandable justification. Immediately, then, the question of what the Assembly may legislate upon becomes complicated by the need to check for any exceptional matters, which in turn can hinder the accessibility and comprehensibility of Assembly-made law. This process is yet further complicated as the exempt matters may refer to further exclusions.

Rather than perpetuating this approach of an ad hoc and uncertain list of powers to be conferred on the Assembly, there should be a rational and coherent test to help limit doubt and provide a mechanism for determining where the boundaries should be drawn. It is proposed that the principle of subsidiarity provides an appropriate criterion.¹⁶

Dywedodd Sefydliad Hywel Dda yn Ysgol y Gyfraith Abertawe:

The advantages of a reserved powers model [...] are:

clarity and intelligibility; avoidance of built-in obsolescence; compliance with the principle of subsidiarity; consistency with Scotland and Northern Ireland. The sole disadvantage (assuming that a unified England and Wales legal jurisdiction is to be retained) is the purely technical challenge of drafting a reservation which would encompass those matters which might otherwise lead to the creation of a *de facto* separate Welsh legal jurisdiction.

It is clear that, viewed objectively, the balance comes down heavily and decisively in favour of a move to a reserved powers model when delineating the legislative competence of the National Assembly for Wales.¹⁷

Dywedodd Your Legal Eyes, cwmni o ymgynghorwyr cyfansoddiadol a chyfreithiol:

We believe that the current way in which the Government of Wales Act 2006 is drafted and operates does not give legal certainty as to the exact scope of the devolved competence in Wales. Devolution has evolved since its inception and a new model for the devolved powers must be found that moves away from a definition by reference to individual executive powers.

The Government of Wales Act must be reformed at a minimum and a new Act could be written at best.

¹⁵ [Tystiolaeth gan Ysgol y Gyfraith Caerdydd \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

¹⁶ Ibid.

¹⁷ [Tystiolaeth gan Sefydliad Hywel Dda yn Ysgol y Gyfraith Abertawe \[fel ar 5 Mehefin 2013\]](#)

The Northern Ireland model of devolution set out in the Northern Ireland Act 1998 seems to us to be the best model which could be adapted to fit Wales' needs.

A less radical approach would be to amend Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 so that it provides a definitive list of all the exceptions to the devolved competence under the 20 Headings. Such exceptions should be precise and specific without reference to specific Acts of Parliament.¹⁸

Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

The overriding principle should be that the law is clear and accessible, which law is applicable to those residing in the border areas should be no less clear than that for a person residing in Cardiff.

It is difficult to defend the current situation when its present effects are the confusion of powers rather than clarity of where power lies – whether for the legal practitioner or for the individual citizen simply seeking to understand and enforce their legal rights in twenty-first century Wales.

For reasons of constitutional stability, maximum clarity, public interest and cost effectiveness, the time may now be right for a move away from the “status quo” represented by the 2006 settlement.¹⁹

Dywedodd y Gymdeithas hefyd:

The differences between the settlements across the United Kingdom have resulted in an asymmetrical approach to devolution. There are historical reasons for this but since devolution has been accepted by all the major political parties and by the majority of the public across the United Kingdom a change in the Welsh settlement to bring it into line with the model for Scotland and Northern Ireland may be desirable.

A move to a reserved powers model would bring both an intellectual and practical coherence to the 2006 settlement, such that the division of powers between Westminster and Cardiff Bay could be readily understood by the citizen on the basis of logic rather than accident of history.²⁰

Dywedodd Partneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid:

Fe gâi model pwerau a gedwir wared ar y rhan fwyaf o feysydd limbo. Fe olygai gwell sicrwydd am gymhwysedd deunydd-pwnc sylfaenol y Cynulliad. Fe arbedai waith i Weinidogion Cymru, eu staff a Chomisiwn y Cynulliad. Fe ddechreuai roi'r gyd-berthnyas rhwng Bae Caerdydd a San Steffan ar sail fwy oedolaidd. Fe rôl eglurdeb i'r cyhoedd a chymdeithas sifil. Dyma'r ateb cywir a'r adeg cywir i'w fabwysiadu.

Dylai Cymru fabwysiadu model yr Alban o bwerau a gedwir, gyda'r un pwerau i raddau helaeth wedi'u cadw i Senedd y DG yn y ddau achos - gan eithrio rhai pwerau dros ddarlledu, heddlua a chyfiwnder troseddol, a ddylai gael ei ddatganoli.²¹

¹⁸ [Tystiolaeth gan Your Legal Eyes \[fel ar 5 Mehefin 2013\]](#)

¹⁹ [Tystiolaeth gan Gymdeithas y Cyfreithwyr \[fel ar 15 Mai 2013\]](#)

²⁰ [Tystiolaeth gan Gymdeithas y Cyfreithwyr \[fel ar 15 Mai 2013\]](#)

²¹ [Tystiolaeth gan Bartneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Dyweddod hefyd: "Ddylai'r symudiad i bwerau a gedwir ddim aros tan ar ôl etholiadau Cynulliad 2020 neu 2021, eithr dylid eu rhoi mewn deddf heb fod yn hwyrach na'r tymor Seneddol cyntaf ar ôl etholiad 2016."²²

Ar wahân i'r safbwyntiau cyfreithiol a gwleidyddol hyn, mynegodd ystod o gyrff gefnogaeth i'r model pwerau a gedwir yn ôl. **Cyflwynodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru** dystiolaeth ar y cyd a oedd yn cefnogi'r model pwerau a gedwir, gan ddadlau y byddai cam o'r fath yn cysoni sefyllfa Cymru â sefyllfa'r Alban ac yn sicrhau rhagor o dryloywder i'r cyhoedd o ran lle y gwneir penderfyniadau. Aethant yn eu blaen:

The current arrangements do not take sufficient account of our respective organisations and our remits leading to a degree of confusion on our potential interaction with reserved policy areas. This has a particular impact on the Children's Commissioner as its sister organisation in England is deemed to have responsibility for reserved matters throughout the UK.²³

Dyweddod Grŵp Astudio Cymru, sy'n rhan o Grŵp Astudio'r Senedd:

The existing 'conferred powers' model of devolution in Wales effectively clouds the scope of the Assembly's legislative powers. This means that the Assembly's powers are unclear and subject to interpretation. We accept that it is meretricious to claim that any devolution settlement provides absolute clarity and legal certainty. Both academic research and specific case law from federal systems around the world shows that there are always legal uncertainties. However, the current 'settlement' in Wales is especially complex, and therefore particularly prone to challenge. Moreover, it sits uneasily with the models in operation in Scotland and Northern Ireland. We suggest a 'reserved model' would add greater clarity and, coupled with the changes we recommend here, reduce uncertainties.²⁴

Nododd yr Eglwys yng Nghymru y pwyntiau a ganlyn:

There is considerable confusion as to what is and is not within the legislative competence of the Assembly. Unlike the settlements in Northern Ireland and Scotland, where 'everything is devolved except...', Wales has 'nothing devolved unless...'. Different issues within each policy area may or may not be devolved. (For example, jurisdiction over planning regulations for wind-turbines are devolved or not, depending on the size of the turbine.) This makes it difficult to operate 'as consumers' of the situation and requires constant reference back to legislation.²⁵

Mynegodd **grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru** (grŵp CHC) y farn a ganlyn: "...the current settlement of a 'devolved powers model' creates unnecessary complications and uncertainties about exactly where the legislative competence lies, as has been evidence by the referral of the first bill of the Assembly to the Supreme Court".²⁶

²² Ibid.

²³ [Tystiolaeth ar y cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

²⁴ [Tystiolaeth gan y Grŵp Astudio Cymru, sy'n rhan o Grŵp Astudio'r Senedd \[fel ar 3 Mehefin 2013\]](#)

²⁵ [Tystiolaeth gan yr Eglwys yng Nghymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

²⁶ [Tystiolaeth gan grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

Dywedodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr:

The Assembly is not a 'reserved powers' institution as it is in Scotland and NI. This model of 'conferred powers' is detrimental to Wales as an entity and does us great harm with the system producing 'grey' areas as to what is within scope or its jurisdiction.²⁷

Mae'r sefydliadau eraill a fynegodd gefnogaeth i'r model pwerau a gedwir yn ôl yn cynnwys **Cyngor ar Bopeth Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Sefydliad Bevan, a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol**, a alwodd hefyd am waredu'r cyfyngiad cyffredinol sy'n diogelu pwerau Gweinidogion y DU.²⁸

3.2. *Plismona*

Mae **Llywodraeth Cymru** yn cynnig y dylai'r Cynulliad gael cyfrifoldeb deddfwriaethol dros blismona; hynny yw, pwerau dros lywodraethu a gweinyddu gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru. Mae hefyd yn ceisio pwerau deddfu mewn perthynas â diogelwch cymunedau ac atal troseddu. Mae'n nodi:

Nid yw trosglwyddo cyfrifoldeb dros y gwasanaeth plismona yn achosi unrhyw faterion o egwyddor ynghylch llywodraethu'r Deyrnas Unedig ac o fewn y Deyrnas Unedig, a byddai'n cyd-fynd yn llwyr â diben datganoli, sef dod â gwasanaethau cyhoeddus yn agosach at y cymunedau a'u gwneud yn fwy uniongyrchol atebol iddynt.²⁹

Ymatebodd **Llywodraeth y DU** fel a ganlyn:

A range of national policing structures and arrangements involve cross boundary issues (e.g. organised crime) or provide significant economies of scale (e.g. IT procurement). The separating out of these national structures and arrangements would involve considerable initial start up and running cost for the Welsh Government. There would also be a cost to UK Government in terms of the break up of current structures and contractual implications.

Policy relating to police pay and pensions, police complaints, independent inspection of policing, national police air service, college of policing, transparency and accessibility are non devolved. If these areas were devolved, they would all need to be duplicated in respect to Wales. Value for money and delivery risk are significant issues given tight fiscal pressures and the significant change already underway as part of the police reform programme.³⁰

Cred Llywodraeth y DU hefyd na ddylid datganoli plismona heb ddatganoli elfennau eraill o'r system cyfiawnder troseddol, sef cam y mae'n ei wrthwynebu (gweler isod).

²⁷ [Tystiolaeth gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

²⁸ [Tystiolaeth gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

²⁹ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

³⁰ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

Croesawodd **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad** ystyriaeth bellach o faterion yn ymwneud â phlisma a chyfiawnder troseddol fel rhan o drafodaethau'r Comisiwn. Fodd bynnag, dywedodd:

following the introduction of Police & Crime Commissioners (PCCs), which will significantly enhance local involvement in the Police's decision-making and marked significant reform of the system, we believe that further wholesale reforms to the Police Service in the near future is undesirable.³¹

Cred **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** y byddai'n gwneud mwy o synnwyr pe bai carchardai a phlisma yn cael eu datganoli i Gymru yn hytrach na bod y pwerau hyn yn cael eu cadw gan Senedd y DU. Maent hefyd o'r farn y dylai'r pwerau hyn gynnwys cyfiawnder ieuencid ac atal troseddu. Aethant yn eu blaen:

However, we also acknowledge that the preparations for the devolution of policing and prisons will take a significant amount of time to prepare. That is why we would like to see a firm commitment to the devolution of these issues and a comprehensive timetable for preparations. This process would culminate in an Order-in-Council which would remove policing, prisons and justice from the reserved powers list.³²

Gwnaeth nifer o sefydliadau sydd â diddordeb sylwadau ar y mater o ddatganoli pwerau dros blisma. Dywedodd **Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO)**:

If policing and criminal justice is to be devolved to the Welsh Government then it is a fundamental principle that this must result in added value and improved service to the people of Wales. Policing and devolution of the Criminal Justice system are intrinsically linked and one should not be devolved without the other.

Dywedodd hefyd:

The Welsh Government has responsibility for devolved matters that are closely associated with policing. Local factors such as poverty, access to education and employment influence levels of crime. Similarly, devolved partners, such as public protection, youth justice and youth provision, community safety and education reduce offending and crime. If all public services were devolved Welsh Government could have better opportunity to redesign and remodel service provision. This could create single strategic Government direction for policing in Wales and improved partnership alignment. Integrated practice may also reduce demand in some areas of policing and/or the Criminal Justice System. Devolution of policing may result in additional costs for functions that are provisioned across England and Wales, for example the National Police Air Service and the College of Policing. A devolved (Welsh) police service could have less influence on the UK policing agenda. Safeguards would be necessary to ensure that police forces in Wales were able to influence future research or all England (and Wales) projects.

Pwysleisiodd ACPO yr angen i sicrhau cysylltiadau parhaus â heddluoedd yn Lloegr.

³¹ [Tystiolaeth gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

³² [Tystiolaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Cred **Prif Gwnstabl Heddlu Gwent** y dylid cefnogi camau i drosglwyddo pwerau dros blismona o Senedd y DU i Gynulliad Cymru, yn amodol ar arfarniad llawn a chadarn o'r opsiynau. Dylid datblygu'r dull gweithredu sy'n sicrhau'r buddion gorau i bobl Cymru ac sy'n ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth o wasanaethau.³³

Dywedodd Christopher Salmon **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys**:

I believe that, broadly, the right balance exists between Westminster and Cardiff in relation to policing. I am in complete support of the principle of devolution. It is a necessary and welcome response to social, democratic and technical change. In a 21st Century democracy this should prioritise giving power to people rather than institutions. This is the rationale that underpins Police and Crime Commissioners, introduced across England and Wales in November 2012. They place accountability firmly in the hands of local electorates.

Nowhere are public ownership, control and accountability more important than in policing and criminal justice. Protecting its own citizens is the first responsibility of any state. Effective policing that provides this protection requires consent. Consent requires trust; and trust requires accountability. These are best exercised at a local level. Consent is critical to the success of the British policing model. Wales' four Police and Crime Commissioners provide this at a more accessible and local level than would control from Cardiff. This is particularly so outside of Cardiff and South Wales.³⁴

Fodd bynnag, dywedodd Winston Roddick QC CB **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru**:

- For the people of Wales, who should be the central consideration for the commission on devolution, the benefits of devolving the police service would be overwhelmingly positive.
- If appropriate safeguards were put in place, the quality of policing would not be diluted and the rule of law would remain the strongest of our constitutional principles.
- North Wales Police and the Police and Crime Commissioners work daily with devolved services and work streams. Devolving policing to the Welsh Government would achieve consistency of policy and it would make for more 'joined up' government which would be reflected in the services that work for the people of Wales.
- The devolution of policing would introduce greater consistency between the devolution settlements for Northern Ireland, Scotland and Wales. For that and many other reasons, it would make sound constitutional sense to devolve it.
- Although Policing is but a part of the criminal justice system and that the latter should be seen as a whole, these are not sufficient reasons for not devolving policing at this time.³⁵

³³ [Tystiolaeth gan Prif Gwnstabl Gwent \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

³⁴ [Tystiolaeth gan Comisiynydd Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

³⁵ [Tystiolaeth gan Winston Roddick, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru \[fel ar 5 Mehefin 2013\]](#)

Dywedodd Ian Johnson, **Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent**:

Policing in Wales is not devolved and both myself and the Chief Constable have a direct relationship with the Home Office and in my case the Home Secretary. Any examination of the powers of the National Assembly of Wales should include an open and transparent debate on whether the police service should be devolved. However, it is my strong belief that any such discussion must take place at the same time as a debate regarding the transfer of the whole of the Criminal Justice System, the interface between the police service, Community Safety and the wider Criminal Justice Service is critical. Any proposals to change the current arrangements must evidence what the benefits for the people of Wales would be under any revised governance arrangements. Only if any new arrangements can be shown to add value to the current position should they be considered.³⁶

Dywedodd yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth:

Policing must be responsive to the broader social, economic and cultural context of the nation in which it operates. This expectation becomes increasingly problematic whilst political control remains in London. In addition, police powers cut across many aspects of devolved responsibilities, for example the use of police powers under the Mental Health Act 1983, the safeguarding and protection of adults at risk and children, and in relation to young offenders. The need for Whitehall approval, even for minor uses of police powers, inhibits law making in Wales.³⁷

Cytunodd y **Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant** y dylid datganoli plismona i Gymru, gan nodi enghreifftiau lle y byddai cam o'r fath yn hwyluso dull integredig o weithredu mewn perthynas â rheoli argyfyngau, a chynllunio a darparu gwasanaethau".³⁸

Dywedodd TUC Cymru:

Policing remains the only emergency service that is not devolved to the National Assembly for Wales and the WTUC believes that the time has come for this situation to change. Devolution of the police service will enable them to be fully engaged in joint in joint [sic] planning and delivery with other local public services. Community safety and crime prevention are integral to the work of all public servants in Wales to improve the wellbeing of communities.³⁹

Dywedodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr:

The logical follow on from adopting Welsh legal system will necessitate devolution of the police and security to the Welsh government. The WG needs to be able to direct its own priorities for application of law and order and devise its own reforms. The public appetite in Wales for the system of police commissioners in Wales is obviously very small and this role and its inherent cost [should] be removed from the system and the WG perform the watchdog role on Police in Wales.⁴⁰

³⁶ [Tystiolaeth gan Ian Johnson, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Heddlu Gwent \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

³⁷ [Tystiolaeth gan yr Athro John Williams \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

³⁸ [Tystiolaeth a gyflwynwyd ar y cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

³⁹ [Tystiolaeth gan TUC Cymru \[fel ar 5 Mehefin 2013\]](#)

⁴⁰ [Tystiolaeth gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

Dywedodd **Partneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid** :

Byddai datganoli cyfrifoldeb am heddlua yn debyg o hwyluso gweithio mewn partneriaeth, sbarduno diwygiad y gwasanaethau cyhoeddus ym meysydd perthynol diogelwch cymunedol, a pheri i weinidogion Llywodraeth Cymru ddod yn hyddysg ym materion heddlu. Fe ddôi llinellau ateblorwydd rhwng yr heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a LIC a, lawn cyn bwysiced, â'r cyhoedd, yn gliriach. Byddai dichonoldeb aleinio'r system yn llawn â system gyfiawnder troseddol Gymreig hefyd o fudd gwirioneddol i'r sawl sy'n ymwneud â hi. Fe greai cydlynrwydd ac atebolrwydd yn lleol.⁴¹

Mynegodd **Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, GOFAL a Phlaid Cymru** gefnogaeth i ddatganoli plismona.

Fodd bynnag, dywedodd **ymatebwr unigol** a oedd yn gyfreithiwr:

The devolution of the policing function to the Assembly is unnecessary and would be a complication in the existing ability of Welsh and English police forces to co-operate in dealing with crime which continues to grow in sophistication. The existing arrangements recognise that crime of all sorts pays no heed to the so-called border between Wales and England.⁴²

Mae **True Wales** yn erbyn datganoli troseddau a phlismona ar sail y ffaith y byddai hyn yn gwneud y gwaith o fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol a therfysgaeth yn fwy anodd ei gydgyssylltu.⁴³

3.3. Cyfiawnder troseddol ac awdurdodaeth ar wahân

Nododd **Llywodraeth Cymru**:

Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn gynyddol anodd cyfiawnhau'r sefyllfa fel y mae, ac rydym yn credu y dylai system cyfiawnder troseddol ddatganoledig fod yn rhan o'r weledigaeth hirdymor ar gyfer llywodraethu Cymru. Gwahodddwn y Comisiwn i gytuno â'r casgliad hwnnw. Byddai manteision ymarferol yn sgil datganoli o ran galluogi'r system cyfiawnder troseddol i ymateb i'r dystiolaeth ar droseddau yng Nghymru, yn ogystal â'n targedau cyflawni penodol. Mae lle i fynd ati o ddifrif i leihau troseddau ac aildroseddau drwy raglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio gyda'n holl bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ym maes integreiddio gwasanaethau ac atal. Byddai hyn yn ein galluogi i wneud cysylltiad agosach rhwng diwygio cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau datganoledig a all gael effaith sylweddol ar droseddau ac ymddygiad troseddol, er enghraifft iechyd (yn enwedig iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau), addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, a chyflogaeth a hyfforddiant.⁴⁴

⁴¹ [Tystiolaeth gan Bartneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁴² [Tystiolaeth gan J L Gardner \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

⁴³ [Tystiolaeth gan True Wales \[fel ar 15 Mai 2015\]](#)

⁴⁴ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

Fodd bynnag, nid yw o'r farn y bydd yn bosibl gwireddu'r weledigaeth hon yn y tymor byr. Eglurodd Llywodraeth Cymru:

Mae maint y portffolio cyfiawnder troseddol yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried y costau posibl hyn yn ddifrifol iawn. Ar sail y ffigurau a gyhoeddwyd, rydym yn amcangyfrif mai tua £1.2 biliwn fyddai cyfanswm y costau cyffredinol, gydag oddeutu £900 miliwn yn gyfrifoldebau cyllid newydd. Hefyd, byddai atebolrwydd a risgiau gweithredol sylweddol yn gysylltiedig â hyn. Byddai'n hanfodol sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu trosglwyddo - byddai hyd yn oed gwahaniaeth bach rhwng y setliad y cytunwyd arno a'r costau gwirioneddol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar weddill cyllideb Cymru.

O ystyried y costau a'r risgiau hyn, **nid yw Llywodraeth Cymru'n teimlo y gall geisio datganoli cyfiawnder troseddol yn llawn ar hyn o bryd (gan gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau erlyn a phrawf, carchardai a dedfrydu), ond dyna yw'n bwriad hirdymor o hyd.** Dylid darparu ar gyfer cyflawni hyn mewn Deddf Llywodraeth Cymru newydd fel bod modd cytuno ar sut i ddatganoli yn y dyfodol heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.⁴⁵ [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]

Dywedodd hefyd na fyddai'n ceisio sicrhau cyfrifoldeb ar unwaith dros weinyddu'r drefn gyfiawnder yn ei chyfanrwydd (hynny yw, trefnu a gweithredu gwaith y llysoedd a'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru), cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb dros bolisi cyfiawnder troseddol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sut y mae am fynd ati yn y tymor byr yn adran 4.

Dywedodd **Llywodraeth y DU:**

England and Wales share a single legal jurisdiction, which has continued to evolve over hundreds of years to meet the changing needs of British society. We support the continuation of the current unified system, which in our view works well whilst offering scope for close working between devolved and non-devolved partners in delivering justice services in Wales. We believe that a separate Welsh legal jurisdiction would offer questionable tangible practical benefits to people living in Wales and could complicate the system unnecessarily for those who need to use it. We note that it would also result in substantial additional cost, which we estimate to be £105-£125 million per annum.⁴⁶

⁴⁵ Ibid.

⁴⁶ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

Nododd Llywodraeth y DU y gallai Deddfau'r Cynulliad greu troseddau: Fodd bynnag, wrth wneud hyn, nid oes unrhyw beth sy'n ei gwneud yn ofynnol ar y Cynulliad, Llywodraeth Cymru, neu unrhyw un o Aelodau neu bwyllgorau'r Cynulliad i ddwyn Bil ymlaen a fydd yn rhoi ystyriaeth i'r costau tebygol a fydd ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi pan fydd y troseddau newydd hyn yn dod i rym. Mae hynny'n wahanol i adrannau o Lywodraeth y DU, sy'n gorfod cael cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cyfiawnder cyn creu troseddau newydd. Awgrymodd Llywodraeth y DU y byddai'r **Comisiwn, o bosibl, am ystyried y mater hwn, gan ystyried a ddylid ymdrin â'r mater yn weinyddol (er enghraifft, drwy ddefnyddio protocol) neu drwy ddeddfwriaeth** [*Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil*].⁴⁷

Yn ôl **Plaid Cymru**:

Dylid sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Byddai hyn yn gofyn am sefydlu strwythur llysoedd a thribiwnlysoedd Cymreig. Dylid ategu hyn gan drosglwyddo pwerau dros y system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau hynny sy'n gyfrifol am erlyn, profiannaeth, carchardai a chyfiawnder ieuencid. Byddai'r camau hyn yn creu system gyfun ac ymarferol o gyfiawnder datganoledig, fyddai'n galluogi mabwysiadu agwedd integredig wedi ei theilwrio at Gymru.⁴⁸

Dywedodd **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad**:

With a probable divergence in the content of law affecting England and Wales, we acknowledge that arrangements would have to change to accommodate that. However, we note there is no immediate problem with capacity in the current system and feel any decision concerning devolution in the near future would be political rather than practical. Our view, therefore, is that devolution of a legal jurisdiction is not a priority and the implications of divergent law will not be felt for some time.⁴⁹

Dywedodd **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**:

We [...] support, following the correct preparations, the creation of a separate legal jurisdiction for Wales. However, we acknowledge that this will be a significant change in the way that justice is administered and there would need to be substantial preparatory work.

In the meantime, we support the need for a more distinctive Welsh approach to the administration of justice within the existing jurisdiction. These would include having a greater number of cases primarily relating to Wales being heard in Wales and the appointment of a member of the Supreme Court from Wales.

This approach should be accompanied by the establishment of a Royal Commission specifically examining the process by which a separate legal jurisdiction would be created. It is our opinion that the issue involved, particularly relating to legal training and education and to the regulation of the legal profession need to be considered.⁵⁰

⁴⁷ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁴⁸ [Tystiolaeth gan Blaid Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁴⁹ [Tystiolaeth gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁵⁰ [Tystiolaeth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Fel y gwelir uchod, cred **ACPO** bod cysylltiad cynhenid rhwng plismona a'r system cyfiawnder troseddol ac ni ddylid datganoli un o'r meysydd hyn heb ddatganoli'r llall.⁵¹

Dywedodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent:

If the police service were to be devolved it would be desirable to devolve part of the criminal justice system as well namely Courts, Administration of Justice and Probation. This would ensure that the end to end criminal justice process was under a single governance arrangement. The rationale for creating an All Wales Criminal Justice Board underpins this principle. Precedence exists in both Northern Ireland and Scotland for a joined Criminal Justice approach in a devolved arrangement.⁵²

Dywedodd Partneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid :

I bob golwg mae yna dir cyffredin, hyd yn oed ymysg rhai na fu gynt yn bleidiol i ddatganoli, y daw awdurdodaeth Gymreig arwahanol, neu rywbeth tebyg iawn i hynny, i'r fei. Gan hynny ein barn ni yw bod rhaid rhag-gynllunio i'r newid cyfansoddiadol hwnnw, yn hytrach na gadael iddo ymaddangos mewn modd graddol, ad hoc a direolaeth. Ein barn ni yw y dylai unrhyw Ddeddf Seneddol yn sefydlu model pwerau a gedwir ddarparu hefyd at sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol Gymreig.⁵³

Roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant o'r farn y dylid datganoli cyfiawnder troseddol yn y tymor hir. Nododd y comisiynwyr enghreifftiau pan fydd y broses o ddatblygu polisiau cydsyniol yng Nghymru yn cael ei llesteirio gan y diffyg datganoli a welir yn y maes hwn. Dywedodd y Comisiynwyr y byddi'n bosibl gweld cynnydd cyflym ym maes cyfiawnder ieuenctid, ac y dylid sicrhau bod hynny'n digwydd.⁵⁴

Dywedodd GOFAL, yr elusen iechyd meddwl:

It is essential that legal professionals operating in Wales and dealing with cases of Wales-specific law are fully informed and aware of updates and changes to Welsh legislation. It is crucial that they can provide appropriate advice and support to individuals passing through the criminal justice and legal systems in Wales. This is especially important in the case of people with mental health problems, who may be particularly vulnerable in such circumstances. If this appears to be under threat as devolution progresses and a Welsh legal identity strengthens, we believe that appropriate mechanisms should be in place to facilitate the establishment of a separate Welsh jurisdiction.⁵⁵

⁵¹ [Tystiolaeth gan ACPO Cymru \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁵² [Tystiolaeth gan Prif Gwnstabl Heddlu Gwent \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁵³ [Tystiolaeth gan Bartneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁵⁴ [Tystiolaeth ar y cyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁵⁵ [Tystiolaeth gan GOFAL \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Dywedodd Pwyllgor Llywio Cymru'r Gyfraith:

There is a clear view shared, albeit not unanimous, amongst the current SCLW that in principle the idea or concept of a separate legal jurisdiction for Wales is attractive and that the only real questions which need to be addressed are firstly, when this might be appropriate and secondly, the practical and financial considerations of such a fundamental restructure.⁵⁶

Dywedodd yr Arglwydd Morris:

I am a late convert to the transfer of policing, although I would not be happy with one police force for Wales. Criminal Justice, depending on how it is defined, is more problematic and there are obvious difficulties here. I am pleased that the administration of justice is not proposed to be transferred at the present time. The obvious issue of costs is exemplified by the material set out in Lord Carswell's Memorandum attached to my evidence to the Select Committee (sic). The administration of justice is not in my view an appropriate subject for transfer now.⁵⁷

Dywedodd ymatebwr unigol, sy'n fargyfeithiwr:

The current system of a Welsh Jurisdiction slowly developing creates confusion within the legal profession and the public as a whole. The lack of forward planning is a feature of Welsh devolution; there has been three different devolution settlements in Wales since 1998, in contrast to only one in Scotland. Forward planning should be done to address the issues likely to arise with a separate Welsh Jurisdiction and should be done formally through an Act of Parliament. A Parliamentary Act creating a separate Welsh Jurisdiction would be clearer for the legal profession and the public as a whole.⁵⁸

Dywedodd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr:

Given that in this paper the FMB proposes devolution of Health and Safety (H & S), builders licensing, Energy, and Severn bridges, there is clearly a strong case to be made for a separate legislature for Wales and the devolution of police and criminal justice. UK legislation and Welsh Assembly legislation is already causing divergence from England in many areas, as this divergence continues the lack of a Welsh jurisdiction would present a danger to the continued success of the devolution journey.⁵⁹

Dywedodd yr Athro John Williams:

the timing of the creation of a Welsh jurisdiction is a finely based judgement[...] the decision depends upon objective criteria rather than political aspirations. A separate Welsh jurisdiction must follow the process of devolution rather than be a precondition of devolution's further development. The creation of a Welsh jurisdiction, unlike devolution itself, is more of an event than a process. It is difficult to envisage how it can be done incrementally. A 'minimum jurisdiction' as a starting point is unrealistic.⁶⁰

⁵⁶ [Tystiolaeth gan Bwyllgor Llywio Cymru'r Gyfraith \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁵⁷ [Tystiolaeth gan yr Arglwydd Morris o Aberafan \[fel ar 16 Mai 2016\]](#)

⁵⁸ [Tystiolaeth gan Rhys Thomas \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

⁵⁹ [Tystiolaeth gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

⁶⁰ [Tystiolaeth gan yr Athro John Williams \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

Dyweddod hefyd: "...there is a strong case for fully devolving responsibility for the probation service" as "the link with social services and housing (particularly when addressing the needs of former prisoners) are central to effective probation work".⁶¹

Gan gyfeirio'n benodol at y gyfraith weinyddol, dywedodd **Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd**:

it is not obviously apparent how the interests of the administrative justice user are best served by overlapping jurisdictional responsibilities shared between the Welsh and UK Governments. Such arrangements make it difficult for overall cohesion to be maintained, given that the relevant functions of the two governments often cross over, and that, for the administrative justice user, such crossover may occur in respect of what he identifies as a single issue of concern or principle.⁶²

Nododd **Llywodraeth Cymru** fod gan Weinidogion Cymru bwerau i benodi aelodau i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer triwlynlysoedd. Serch hynny, nododd fod rhai swyddogaethau gweddilliol yn cael eu cadw gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor, a bod y sefyllfa hon yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru fabwysiadu unrhyw bolisiau cyson neu ystyrllon ar gyfer y triwlynlysoedd hyn. Gan fod y triwlynlysoedd hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf mewn meysydd datganoledig, dylai Gweinidogion Cymru feddu ar gymhwysedd gweithredol llawn mewn perthynas â hwy.⁶³

Fodd bynnag, dywedodd **ymatebwr unigol** a oedd yn gyfreithiwr:

The existing jurisdiction is a fundamental part of the Union between England and Wales. The creation of a Wales only jurisdiction would be a significant breach in the Union and would result in Wales having inferior arrangements. I conclude that there is no justification for a separate jurisdiction.⁶⁴

3.4. *Lles*

Nid yw **Llywodraeth Cymru** yn cefnogi camau i ddatganoli nawdd cymdeithasol (gan gynnwys cynnal plant a phensiynau) i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru. Dylid cadw'r mater hwn yn ôl yn San Steffan.⁶⁵

Cred **grŵp CHC** y dylai Llywodraeth Cymru gael yr un pwerau mewn perthynas â lles â'r pwerau sydd gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd.⁶⁶

⁶¹ [Ibid.](#)

⁶² [Tystiolaeth gan Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd \[fel ar Mai 2013\]](#)

⁶³ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁶⁴ [Tystiolaeth gan J L Gardner \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

⁶⁵ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁶⁶ [Tystiolaeth gan grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru \[fel ym mis Mai 2013\]](#)

Dywedodd **Sefydliad Bevan**:

While financial constraints and the current process of reform of social security benefits make devolution of almost all aspects of the benefit system virtually impossible in the short to medium term[...] there is scope to devolve powers over employment programmes e.g. the Work Programme.⁶⁷

Fodd bynnag, cred **GOFAL**, yr elusen iechyd meddwl, na ddylai'r system fudd-daliadau gael ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

we do not wish to see the benefits system devolved to the National Assembly, as we believe this would be extremely costly and would not deliver clear benefits to the people of Wales.⁶⁸

Dywedodd **Partneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid**:

ni welwn ni mo datganoli yn y maes hwn yn ymarferol nag yn ddymunol. Mae'r trosglwyddiad diweddar i Lywodraeth Cymru o gyfrifoldeb dros weinyddu rhai swyddogaethau mewn lles cymdeithasol yn darlunio perygl datganoli swyddogaethau heb ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac heb drosglwyddo adnoddau cyfatebol.⁶⁹

3.5. *Trafnidiaeth*

Mae **Llywodraeth Cymru** o'r farn y dylai pwerau dros hedfan, morgludiant a diogelwch morol, safonau ffyrdd a cherbydau, a thrwyddedau gyrru gael eu cadw gan Senedd y DU. Fodd bynnag, dylid ymestyn pwerau presennol y Cynulliad mewn perthynas â thrafnidiaeth, a nodir yn Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, i gynnwys cyfyngiadau cyflymder, rheoleiddio bysiau, rheoleiddio taccis a phorthladdoedd.⁷⁰

Cred Llywodraeth y DU fod y ffin ddatganoli bresennol, mewn perthynas â phorthladdoedd, yn foddhaol. Mae phorthladdoedd Cymru'n cystadlu gyda phorthladdoedd eraill Prydain o dan amodau teg. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai Comisiwn Silk efallai am ystyried y ffin ddatganoli mewn perthynas â phorthladdoedd, gan nodi y dylai Llywodraeth y DU barhau i fod yn gyfrifol am faterion uwchwladol.⁷¹

Dywedodd **Llywodraeth y DU** hefyd y byddai Comisiwn Silk efallai am ystyried y posibilrwydd o ddatganoli'r broses o reoleiddio gwasanaethau a chwmnïau bws lleol, neu'r posibilrwydd o ddatganoli'r broses hon ymhellach.

Mae **Llywodraeth Cymru** yn gweld posibilrwydd o newid y setliad datganoli mewn perthynas â gwasanaethau a seilwaith y rheilffyrdd. Ar hyn o bryd, mae'n trafod yr opsiynau hyn gyda'r Adran Drafnidiaeth fel rhan o gynllunio'r fasnachfaint newydd ar gyfer Cymru a'r Gororau.

⁶⁷ [Tystiolaeth gan Sefydliad Bevan \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁶⁸ [Tystiolaeth gan GOFAL \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁶⁹ [Tystiolaeth gan Partneriaeth y DG: Undeb Sy'n Newid \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁷⁰ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁷¹ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

Eglurodd **Llywodraeth y DU** fod y ffin ddatganoli sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn perthynas â masnachfaint Cymru a'r Gororau yn golygu y bydd risg ariannol o fewn y fasnachfaint yn gorwedd gyda Llywodraeth Cymru, ond y byddai'r risg ariannol o gael masnachfaint newydd (a'r risg o fethiant trychinebus) yn aros gyda Llywodraeth y DU. Cred Llywodraeth y DU fod y sefyllfa hon yn annymunol. Byddai Llywodraeth y DU yn croesawu camau gan y Comisiwn i ystyried y ffin ddatganoli gyfredol mewn perthynas â rheilffyrdd, a'r posibilïadau o ran newid y trefniadau hynny.

Dywedodd **Plaid Cymru**:

Dylai Llywodraeth Cymru allu penderfynu sut y rhedir rhwydwaith y rheilffyrdd yng Nghymru, pan ddaw'r fasnachfaint bresennol i ben yn 2018. Fe ddylai gael y grym i benderfynu sut y mae am drafod gyda'r cwmnïau trenau ar gyfer darparu eu gwasanaethau, boed hynny y tu mewn i'r system fasnachfaint neu y tu allan. Os cedwir system y fasnachfaint, yna Llywodraeth Cymru ddylai gymryd y penderfyniadau arweiniol am fasnachfaint Cymru a'r Gororau. Byddai'r newidiadau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu system drafnidiaeth integredig sydd yn gwasanaethu pobl Cymru yn well ac sy'n atebol iddynt, yn ogystal â helpu i sicrhau cyfran decach o'r cyllid. Dylai'r cyfrifoldeb dros agweddau eraill ar drafnidiaeth, sydd wedi eu cadw yn San Steffan ar hyn o bryd, hefyd gael ei ddatganoli.⁷²

Dywedodd **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad**:

The Group believes that the Commission should explore any existing anomalies in the present system in relation to transport. For example, during the Third Assembly, the Welsh Government spoke of its investment into the accessibility of railway stations, whilst also highlighting statutory responsibility for railway accessibility as a reserved matter. This could be regarded as an inconsistency. Furthermore, we note the recent debate in relation to the possible future devolution of the Severn Bridge. It is the Group's belief that the Severn Bridge, acting as a gateway to Wales, is a hugely important issue and that the tolls have a significant impact on our nation's economy and tourist trade. Given the on-going debate concerning the Bridge's future ownership, the Group feels the Commission should give its view on future options for the Bridge following its return to public hands, which could happen in 2018.⁷³

Mynegodd **yr Athro Stuart Cole** y ddadl a ganlyn o blaid cael polisi trafndiaeth integredig yng Nghymru: "...key responsibilities, powers and functions should be transferred to the National Assembly which could then consider the transfer of some of these powers/obligations to Joint Transport Authorities or local authorities".⁷⁴

⁷² [Tystiolaeth gan Blaid Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁷³ [Tystiolaeth gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁷⁴ [Tystiolaeth gan yr Athro Stuart Cole \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

Dyweddod **Pwyllgor Menter a Busnes** Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod am weld y camau a ganlyn:

- A statutory relationship between the Welsh Government and Network Rail. This might include devolution of powers to specify high level outputs for Welsh rail infrastructure, similar to the powers of the Scottish Government;
- An enhanced role in the rail franchising process as it affects Wales, particularly powers to specify franchise agreements that comprise predominantly Wales-only services (passenger services that start and end in Wales), such as the current Wales and Borders Franchise;
- Bus regulation and registration, including making the Traffic Commissioner for Wales accountable to the Welsh Ministers.⁷⁵

Dyweddod undeb **Unite Wales**:

It is the opinion of Unite Wales, along with the Wales TUC, that devolving the powers to specify output from Network Rail on the Welsh rail infrastructure would provide greater opportunity for a more integrated and democratic rail policy in Wales. The existing devolution settlement for rail is convoluted, confusing and does not assist the Welsh Government in making strategic interventions in transport policy in the interests of social and economic development.

Unite recognises that poor connectivity is a barrier to accessing work and labour markets for employees and employers alike. We too welcome the current Welsh Government agendas to create more integrated transport networks but despite this commitment it remains the case that poor rail infrastructure is detrimental to Wales' economic performance. The Welsh Government should have the power to specify output from Network Rail in order to address this.⁷⁶

Mae'r **Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant** yn arddel rhagor o ddatganoli yn y meysydd a ganlyn: ehangu'r broses o integreiddio trafndiaeth, rheoleiddio bysiau, a thrwyddedu a rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat.⁷⁷

Ym marn **Sustrans a Sefydliad Bevan**, dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau i benderfynu lefel cymorthdaliadau a/neu daliadau contract mewn perthynas â bysiau; pwerau i benderfynu llwybrau bysiau ac amllder gwasanaethau ar lwybrau masnachol a chyhoeddus; a grwpiau datganoledig ar gyfer defnyddwyr bysiau.⁷⁸

Galwodd rhai **ymatebwyr unigol** am ddatganoli pontydd Hafren. Nododd **Llywodraeth y DU**:

Whilst the future of the Severn Crossings is a matter of importance to the Welsh economy, the UK Government does not believe that it raises any issues in terms of the devolution or otherwise of powers to the Assembly or the Welsh Government. As such, we consider that this issue is best considered outside the Commission's work.⁷⁹

⁷⁵ [Tystiolaeth gan y Pwyllgor Menter a Busnes \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

⁷⁶ [Tystiolaeth gan Unite \[fel ar 15 Mai 2013\]](#)

⁷⁷ [Tystiolaeth a gyflwynwyd ar y cyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁷⁸ [Tystiolaeth gan Sustrans a Sefydliad Bevan \[fel ar 15 Mai 2013\]](#)

⁷⁹ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

Dywedodd **Maes Awyr Bryste**:

We are unable to identify any areas of aviation policy that are currently encumbered by the current division of responsibilities or the operation of the devolution settlement. Cross-border issues with the distribution of air travellers between airports in England and Wales require that a UK perspective needs to be maintained and with respect to international air travel is implemented through the EU and the International Civil Aviation Organisation. Aviation policy should therefore remain reserved to the UK Parliament. However in practice most, if not all, decisions relating to Welsh airports and air services are taken within currently devolved powers relating to the planning system, surface access and the provision of air services.⁸⁰

Cred **Llywodraeth y DU** fod y ffin ddatganoli mewn perthynas â hedfan yn y man cywir.

3.6. *Cydraddoldebau*

Dywedodd **Llywodraeth Cymru** nad yw'n bosibl i'r Cynulliad gael pwerau deddfu llawn mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Pe na bai cydraddoldeb yn fater a gedwir yn ôl, byddai'n ofynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i gymryd yr ystod gyfan o gyfrifoldebau sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu gweithredu ar lefel y DU, gan gynnwys gweithredu'r holl ddatblygiadau sydd ynghlwm â deddfwriaeth cydraddoldeb yr Undeb Ewropeaidd a'u hymgorffori yng nghyfreithiau Cymru. Dywedodd y byddai hyn yn anymarferol o ran adnoddau. Fodd bynnag, roedd yn argymhell y dylid cryfhau neu egluro'r cymhwysedd datganoledig, a hynny drwy eithriadau i gymal cadw ar gydraddoldeb a fyddai'n cael eu drafftio'n briodol mewn Deddf Llywodraeth Cymru a lunnir yn y dyfodol.

Roedd **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad** yn annog y Comisiwn i ystyried yr anghysonderau y mae'n tybio sy'n bodoli mewn perthynas â materion datganoledig ym maes cyfle cyfartal. Dywedodd y grŵp:

A lack of clarity concerning some devolved competencies may prove a hindrance not only in the carrying out of the Assembly's functions, but in the execution of equality-focussed work by key representatives in Welsh public life, such as the Children's Commissioner and Older People's Commissioner.⁸¹

⁸⁰ [Tystiolaeth gan Faes Awyr Bryste \[fel ar 20 Mawrth 2013\]](#)

⁸¹ [Tystiolaeth gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Cred y **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael pwerau i ehangu ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys *Deddf Cydraddoldeb 2010* a *Deddf Hawliau Dynol 1998*. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael:

- cymhwysedd deddfwriaeth sylfaenol llawn mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a
- chymhwysedd i gryfhau ei berthynas â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Cred y **Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant** y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael pwerau i ehangu ar ddarpariaethau *Deddf Cydraddoldeb 2010*:

Whilst responsibility for both equality and tackling discrimination and its primary enforcement mechanisms remain reserved matters, the National Assembly should be enabled to go beyond the minimal provision of the Equality Act. This might include implementing sections of the Act that the UK Government has no immediate intention of implementing and extending the coverage to certain groups.⁸²

Dywedodd yr **Eglwys yng Nghymru**: "...for the sake of clarity, equalities legislation should be fully devolved."⁸³

3.7. *Swyddogaethau Llywodraeth leol*

Cred **Llywodraeth Cymru** mai dim ond y materion a ganlyn a ddylai fod yn faterion a gedwir yn ôl gan Senedd y DU: Cofrestru genedigaethau, priodasau, partneriaethau sifil a marwolaethau; masnachu ar y Sul; cofrestru etholiadol; swyddogaethau crwneriaid; a chyfrifoldeb dros drwyddedu datgladdu.⁸⁴

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ellir bellach gyfiawnhau'r eithriadau presennol canlynol i gymhwysedd cyffredinol y Cynulliad mewn perthynas â llywodraeth leol, ac na ddylent felly fod yn faterion a gedwir yn ôl gan Senedd y DU: gweinyddu etholiadau yng Nghymru; trwyddedu gwerthiant a chyflenwi alcohol; darparu adloniant a lluniaeth gyda'r hwyr; gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol; a darparu cyngor a chymorth dramor gan awdurdodau lleol, mewn cysylltiad â chynnal gweithgareddau llywodraeth leol yno.⁸⁵

⁸² [Tystiolaeth ar y cyd gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁸³ [Tystiolaeth gan yr Eglwys yng Nghymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁸⁴ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁸⁵ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

Dywedodd **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**:

the final element of local authority powers which are not devolved to the National Assembly should be made devolved powers. Specifically, licensing regimes which are decided by local authorities, such as alcohol and venue licensing and taxi licensing, should be devolved.⁸⁶

Dywedodd **yr Eglwys yng Nghymru** bod polisïau yn ymwneud â chladdu yn faes nodweddiadol lle mae'r ddeddfwriaeth yn ddryslyd. Nid yw'r mater o gael caniatâd i symud gweddillion yn fater datganoledig; mae gofyn cael caniatâd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn San Steffan. Serch hynny, mae'r mater o ffioedd claddu yn dod o dan gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Mae'r Eglwys yng Nghymru am weld pob mater sy'n ymwneud â chladdu yn cael ei ddatganoli.⁸⁷

3.8. *Etholiadau*

Dywedodd **Llywodraeth y DU**:

The conduct of local government elections in Scotland has been devolved since the Scotland Act 1998. Scottish Ministers are responsible for making the rules on the conduct of Scottish local elections, but not for the franchise or electoral registration in relation to those elections. The Commission may wish to consider whether electoral administration in regard to local government elections in Wales, which would cover setting the rules for the conduct of the elections, should similarly be devolved to Welsh Ministers. We would expect the franchise and electoral registration to remain non-devolved.⁸⁸

Dywedodd **y Comisiwn Etholiadol**:

It would be sensible and consistent with arrangements in Scotland that secondary legislation for the conduct of Assembly and local elections be made by the Assembly rather than by the Secretary of State for Wales, which is the current position¹. The Scottish Parliament has had responsibility for secondary legislation governing local elections in Scotland since 1999 and for Scottish Parliamentary elections since the Scotland Act 2012[...].

[...] Similarly, it would be consistent for the power to vary the date of Assembly elections by up to one month and call an extraordinary election to be with the Assembly Presiding Officer, as it is in the Scottish Parliament, rather than the Secretary of State for Wales.⁸⁹

Mae **Plaid Cymru** am weld pob mater sy'n ymwneud ag etholiadau yn cael ei ddatganoli.⁹⁰ **Dywedodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**:

Local government is an almost wholly devolved matter and as a result, we find it incongruous that elections to local authorities, and community councils, are not a matter for the National Assembly to legislate on. As a result, we would wish to see the National Assembly for Wales given the power to alter the electoral arrangements for local authorities. This would include both electoral reform and lowering the voting age to 16.⁹¹

⁸⁶ [Tystiolaeth gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁸⁷ [Tystiolaeth gan yr Eglwys yng Nghymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁸⁸ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁸⁹ [Tystiolaeth gan y Comisiwn Etholiadol \[fel ar 16 Mai 2013\]](#)

⁹⁰ [Tystiolaeth gan Plaid Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

⁹¹ [Tystiolaeth gan Democratiaid Rhyddfrydol Cymru \[fel ar 24 Mai 2013\]](#)

Ymatebodd **Mark Drakeford AC** fel a ganlyn:

The additional matter which I wanted to highlight here, however, relates to electoral systems and electoral arrangements; and the possibility of local government and the National Assembly taking on these responsibilities. I believe there is a clear case for devolving these responsibilities to the National Assembly itself. This would allow decisions about the form of election to these tiers of government to be taken much closer to them. It would also allow the National Assembly to bring the way in which elections are conducted into the modern era.⁹²

Galwodd **Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru** am ddatganoli'r pwerau sy'n ymwneud â system bleidleisio'r Cynulliad Cenedlaethol i'r Cynulliad ei hun. Dywedodd hefyd y dylai unrhyw newid i'r system bleidleisio sy'n cael ei basio yn y Cynulliad fod yn amodol ar gael mwyafrif o ddwy ran o dair.⁹³

3.9. *Ynni*

Nododd **Llywodraeth Cymru** fod gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol eang mewn perthynas â materion cynllunio ond bod hyn yn ddarostyngedig i Eithriad ar gyfer caniatâd datblygu mewn perthynas â phrosiectau ynni mawr o dan *Ddeddf Cynllunio 2008*. Mae am gael gwared ar yr Eithriad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn ar Gynllunio a Bil drafft ar ddiwygio'r system gynllunio yn ddiweddarach yn 2013, a fydd yn nodi ei chynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas â datblygiadau seilwaith datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru am i Weinidogion Cymru gael swyddogaethau gweithredol, ac am i'r Cynulliad gael cymhwysedd deddfwriaethol, mewn perthynas â chaniatadau ar gyfer prosiectau ynni mawr (ac eithrio ynni niwclear) a seilwaith cysylltiedig fel llinellau pŵer.⁹⁴

Dywedodd **Llywodraeth y DU**:

We consider that planning policy and decision making for major infrastructure in Wales should be viewed in a wider context. England, Wales and Scotland collectively benefit from major developments in terms of economic benefits, security of supply and low carbon deployment. Developers welcome consistent planning policy and decision making to give them the confidence they need to make the very large investments required in, for example, new nuclear power stations at Hinkley and Wylfa, new connections with Ireland, and around £18bn of potential onshore network development by 2021. We consider that the current unified planning regime for England and Wales provides a stable platform for investment in major infrastructure both now and in the future.⁹⁵

⁹² [Tystiolaeth gan Mark Drakeford AC \[fel ar 16 Mai 2013\]](#) Cyflwynwyd y dystiolaeth hon cyn i Mr Drakeford ddod yn Weinidog ym mis Mawrth 2013.

⁹³ [Tystiolaeth gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁹⁴ [Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru \[fel ar 17 Mai 2013\]](#)

⁹⁵ [Tystiolaeth gan Lywodraeth y DU \[fel ar 22 Mai 2013\]](#)

Dyweddod hefyd:

The UK Government has found the 50MW threshold for onshore development to be appropriate because many schemes above 50MW are of sufficient importance and scale to be considered nationally significant. Major infrastructure projects onshore between 50MW and 100MW include onshore windfarms, biomass plants and energy from waste plants. Changing the threshold from 50MW to 100MW could have a negative impact on energy and planning policy for major infrastructure and result in increased complexity in the planning system and less efficient, more piecemeal and more expensive development.⁹⁶

Mae Llywodraeth y DU hefyd am weld penderfyniadau ar "ddatblygiadau cysylltiedig" mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd yn cael eu cymryd gan Ysgrifennydd Gwladol y DU yn hytrach na chan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Mae'n nodi:

The UK Government believes there is a strong case to realign consenting powers in the area of "associated development" under the Planning Act 2008. Currently, in England only, the Act makes provision for 'associated development' (e.g. roads, substations) that is part of a larger development to be consented to at a national level, as it forms part of a Nationally Significant Infrastructure Project (e.g. power stations, overhead lines). In Wales, any 'associated development' is determined at local authority level which can result in additional complexity, cost and uncertainty. The Government considers that the planning framework for major infrastructure in Wales can be made more streamlined and more effective by including associated development within the Planning Act regime. The Commission may wish to consider this point.⁹⁷

Dyweddod Plaid Cymru :

...dylai'r cyfrifoldebau dros gynllunio, trwyddedu a goruchwylio pob cloddio, ecsploetio a throsglwyddo adnoddau transfer yng Nghymru gael eu trosglwyddo. Dylai'r phwerau hyn gynnwys y rhai dros ddŵr yn ogystal â thros brosiectau sy'n defnyddio ffynonellau ynni sy'n cael eu mewforio, megis LNG. Llywodraeth Cymru allu Fersiwn derfynol (V54) 23 Chwefror 2013 (LG) 8 penderfynu i ba raddau y dylai trydan gael ei gynhyrchu i'w allforio, gan ystyried materion megis yr amgylchedd, ac elw ariannol posib.⁹⁸

Dyweddod hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fod â phwerau cynllunio o'r fath dros bob prosiect ynni ym mhob cwr o Gymru a'i moroedd cysylltiedig.⁹⁹

⁹⁶Ibid.

⁹⁷Ibid.

⁹⁸[Tystiolaeth gan Blaid Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

⁹⁹[Tystiolaeth gan Blaid Cymru \[fel ar 23 Mai 2013\]](#)

Mae **grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad** yn cefnogi datganoli cymhwysedd dros brosiectau ynni o hyd at 100MW.¹⁰⁰ Dywedodd hefyd:

We also believe there is a strong case for Wales having control over Renewables Obligation Certificates (ROCs). We would urge the Commission to look closely at the feasibility of such a proposal. These certificates are key in ensuring that suppliers source an appropriate proportion of electricity provided to consumers from renewable sources and their devolution to Wales would give the Assembly parity with both Scotland and Northern Ireland on this important matter.¹⁰¹

Mae **Democratiaid Rhyddfrydol Cymru** yn cefnogi datganoli'r system gynllunio ynni (gan gynnwys caniatadau adran 36, sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau cynhyrchu ynni sydd ag allbwn dros 50MW). Maent hefyd am weld pwerau dros dystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy yn cael eu datganoli.¹⁰²

Dywedodd **Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru** fod y setliad presennol yn cyfyngu ar bwerau Llywodraeth Cymru i roi caniatâd cynllunio i gynlluniau ynni mawr. Mae'r sefydliad hwn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gael pwerau i roi caniatâd cynllunio mewn perthynas â phob cynllun ynni yng Nghymru ac y dylai Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau ar brosiectau ynni trawsffiniol. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

Wales needs full and strong powers in relation to its infrastructure, to maintain Wales' vibrancy and to ensure the Country can grow in these difficult times.¹⁰³

Cred **Cyfeillion y Ddaear Cymru** y dylid datganoli'r holl bwerau dros ganiatáu a thrwyddedu datblygiadau ynni yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd:

